*This document is available in English*

**Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **15 Mehefin 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Chris Dinwoodie, Rheolwr Datblygu Sefydliadol** |
| Pwnc | **Adroddiad Asesu Perfformiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Blynyddol 2025/26** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno'r Adroddiad Asesu Perfformiad Blynyddol ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn 2025/26, ac i geisio cymeradwyaeth i'w gyhoeddi yn unol ag ymrwymiadau statudol a sefydliadol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Blynyddol ar gyfer 2025/26 yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed yn erbyn Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant pum mlynedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth). Mae'n dangos sut mae'r Gwasanaeth wedi parhau i ymgorffori cynhwysiant yn ei ddiwylliant sefydliadol, wedi gwella amrywiaeth y gweithlu, ac wedi darparu gwasanaethau cynhwysol i gymunedau.

3 Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at waith partneriaeth a wnaed a chamau a gymerwyd mewn ymateb i'r Adolygiad Annibynnol o'r Diwylliant, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i greu gweithle lle gall pawb ffynnu.

## ARGYMHELLIAD

4 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Argymell bod yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn cymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Blynyddol 2025/26 ar wefan y Gwasanaeth.**

## CEFNDIR

5 Yn 2024, lansiodd y Gwasanaeth Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant pum mlynedd er mwyn cefnogi cyflwyno'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol, a chynnal gwerthoedd sefydliadol. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar bedwar nod allweddol: ymgorffori cynhwysiant mewn diwylliant sefydliadol; denu, recriwtio a chadw pobl dalentog; darparu gwasanaethau cynhwysol i gymunedau; a datblygu partneriaethau effeithiol.

6 Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o’r cynnydd a wnaed yn ystod 2025/26, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r adroddiadau ar Fonitro Cydraddoldeb a’r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau.

**GWYBODAETH**

7 Mae Adroddiad Asesu Perfformiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2025/26 yn dangos bod y Gwasanaeth wedi parhau i wneud cynnydd mesuradwy o ran ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y sefydliad. Mae'r adroddiad yn dangos gwelliant parhaus wrth ymgorffori arferion cynhwysol ar draws y sefydliad, gyda chefnogaeth goruchwyliaeth arweinyddiaeth gryfach, datblygu’r gweithlu a monitro canlyniadau cydraddoldeb parhaus.

8 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran denu, datblygu a chefnogi gweithlu mwy amrywiol. Roedd hyn yn cynnwys gweithgarwch gweithredu cadarnhaol cyfreithlon wedi'i dargedu i annog ceisiadau gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, yn enwedig menywod sy'n ceisio am rolau diffoddwyr tân, ynghyd â gwelliannau cymedrol yng nghynrychiolaeth y gweithlu. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at ostyngiad sylweddol yn y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau, o 8.29% i 5.27%, sy'n welliant calonogol ac yn gosod y Gwasanaeth yn is na chyfartaledd presennol y DU.

9 Mae'r adroddiad yn amlinellu ymhellach y camau a gymerwyd i wella hygyrchedd a chynhwysiant ein gwaith o ddarparu gwasanaethau i gymunedau ledled Gogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant staff ychwanegol, mwy o ymgysylltu gyda grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, a gweithio mewn partneriaeth i gefnogi gwaith atal, ymgynghori ac ymddiriedaeth gymunedol. Mae'r adroddiad yn dod i ben trwy nodi blaenoriaethau 2026/27, gan gynnwys mwy o ddatblygu arweinyddiaeth, gweithgarwch gweithredu cadarnhaol parhaus, monitro data gweithlu cryfach, ac ehangu rhwydweithiau cymorth staff.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Cefnogi gweithlu mwy cyfartal a chynhwysol sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). |
| Cyllideb | Dim goblygiadau ariannol uniongyrchol y tu hwnt i ymrwymiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant presennol. |
| Cyfreithiol | Cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r rheoliadau cysylltiedig. |
| Staffio | Atgyfnerthu ymrwymiad i arferion recriwtio, dilyniant a chadw teg. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant; adroddiad ar gael yn ddwyieithog. |
| Risgiau | Byddai methu â chyhoeddi yn peryglu enw da ac yn golygu nad ydym yn cydymffurfio ag ymrwymiadau i fod yn dryloyw. |